**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LW/1901/23

Scott Waddington
Cadeirydd
Trafnidiaeth Cymru
3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Scott,

**Cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru 2.0 – Datblygu diwylliant teithio aml-ddull a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni rhwydwaith trafnidiaeth integredig**

Y llynedd yn eich llythyr cylch gwaith amlinellais y blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn ystod y tymor Llywodraeth presennol. Mae'r llythyr hwn yn adeiladu ar y cylch gwaith hwnnw, a dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r gofynion hynny. I sicrhau bod trafnidiaeth yn chwarae ei rhan wrth gyflawni targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr hinsawdd, ein rhwymedigaethau i Genedlaethau'r Dyfodol a'r nodau llesiant, mae'n bwysig ailystyried y gofynion hyn, a dylai'r amcanion polisi strategol canlynol arwain esblygiad y sefydliad, yr ydym wedi'i enwi yn Drafnidiaeth Cymru 2.0:

(1) **Newid i ddulliau teithio** cynaliadwy cymaint ag y bo modd i ategu ein rhwymedigaethau a'n targedau ar gyfer trafnidiaeth o dan Sero Net Cymru, i wella iechyd a llesiant ac i leihau cost gweithredu rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus;

(2) **Cyflwyno system drafnidiaeth llawn integredig** yng Nghymru, gydag un rhwydwaith, un amserlen ac un tocyn, mewn partneriaeth agos gyda llywodraeth leol a chanolog

(3) **Meithrin diwylliant teithio aml-ddull yng Nghymru** ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (yn unol â'r Cynllun Trydydd Sector) drwy ei staff, eu harferion caffael a'u gwaith gyda phartneriaid;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

(4) **Annog a chefnogi pobl i addasu ac i ystyried dulliau teithio cynaliadwy yn opsiwn diofyn ar gyfer eu hanghenion teithio** drwy ymgorffori newid ymddygiad yn niwylliant a chynlluniau eich sefydliad;

(5) Gwella a **datblygu cyfleoedd masnachol ac ymddygiadau** i gynyddu refeniw a lleihau costau cymaint ag y bo modd, i leihau risgiau ac i fanteisio ar gyfleoedd.

Bydd angen datblygu diwylliant ac arferion eich sefydliad ymhellach er mwyn sefydlu meddylfryd teithio aml-ddull a sicrhau bod rhwydwaith hygyrch, integredig yn cael ei flaenoriaethu ac yn ganolog i benderfyniadau. Mae'n debygol y bydd y blynyddoedd nesaf yn gweld gwasanaethau trenau a swyddogaethau teithio llesol yn cael eu cyfuno, ynghyd â thwf sylweddol yn eich cylchoedd gwaith ar gyfer cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae Trafnidiaeth Cymru wedi cymryd camau sylweddol i feddwl, i weithredu ac i gyflawni ar draws dulliau teithio mewn modd integredig. Rwy'n croesawu'r model gweithredu corfforaethol rydych wedi ei gyflwyno i wella integreiddio a hyrwyddo teithio aml-ddull ar draws y sefydliad. Bydd angen gwneud mwy yn y maes hwn, gan gynnwys rhaglen newid diwylliant barhaus, uwchsgilio unigolion fel y gellir defnyddio sgiliau ar draws mwy nag un dull, dod yn arbenigwr ar newid ymddygiad, meincnodi galluoedd yn erbyn y sefydliadau gorau yn y byd, a sicrhau bod sgiliau'r Bwrdd yn briodol ar gyfer ehangu'r cylch gwaith.

Mewn egwyddor rwyf o blaid rhoi cylch gwaith ehangach i Drafnidiaeth Cymru, a rhoi'r pŵer iddi wneud penderfyniadau gweithredol a masnachol bach, ac arloesi o fewn fframwaith llywodraethu a chyllideb ariannol glir wedi'u diffinio'n glir, i sicrhau bod ei phenderfyniadau a'i pherfformiad yn agored, yn dryloyw, yn ddarostyngedig i broses graffu ac yn unol â'i Herthyglau Cymdeithasu, ei dogfen fframwaith, ei chynllun busnes, ei chynllun gweithredu pum mlynedd, llythyr cyllido Llywodraeth Cymru a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru. Rwy'n disgwyl i Drafnidiaeth Cymru fod yn rhagweithiol wrth wneud penderfyniadau gweithredol llai a galluogi diwylliant o gyflawni i sicrhau newid dulliau teithio, wrth leihau'r angen am gymhorthdal yn y dyfodol. I hwyluso hyn, mae fy swyddogion yn gweithio gyda'ch timau ar nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys diweddaru eich Erthyglau Cymdeithasu a'ch Fframwaith Rheoli.

Yn ogystal â'r llythyr cylch gwaith a anfonais y llynedd ar gyfer y tymor llywodraethu, hoffwn weld sylw penodol yn cael ei roi i'r meysydd canlynol.

### 1. Arweinyddiaeth a Diwylliant y Sefydliad

Yn y llythyr cylch gwaith ar gyfer y tymor llywodraethu a anfonwyd atoch y llynedd, gwnaethom amlinellu ein blaenoriaethau i Drafnidiaeth Cymru ein cefnogi ni wrth annog pobl i wneud penderfyniadau teithio cynaliadwy, er mwyn cyflawni ein targed yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i weld 45% o siwrneiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040. Er mwyn cyflawni hyn nid yn unig bydd angen yr ailstrwythuro sefydliadol sydd wedi cael ei gynnal, ond hefyd trawsnewid diwylliannol ar draws ein dau sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod proffil staff Trafnidiaeth Cymru

yn cynrychioli pobl Cymru yn well. Bydd datblygu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y gweithlu yn cynnig y manteision sy'n gysylltiedig ag arbenigedd drwy brofiad a sgiliau iaith.

Bydd cyflawni targedau Llywodraeth Cymru a gwneud Trafnidiaeth Cymru yn fwy sefydlog a chynaliadwy yn ariannol yn golygu cryn ffocws ac ymdrech gan Fwrdd Trafnidiaeth Cymru i ddangos arweinyddiaeth ar draws pob dull teithio cynaliadwy sy'n annog integreiddio ac arloesi.

Er y bu cryn gynnydd wrth ddatblygu dull 'un tîm' ar diwylliant cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, mae cryn waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn. Un maes lle yr hoffem wneud cynnydd ar unwaith yw gweld sgiliau a phrofiad yn cael eu rhannu'n rheolaidd rhwng y ddau sefydliad, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ffyrdd o weithio a heriau.

Mae'r broses o bennu'r gyllideb eleni wedi bod yn heriol, a bydd yn parhau i fod yn heriol am y dyfodol rhagweladwy. Rydym wedi symud tuag at gylch mwy parhaus o bennu amcanion, cynllunio busnes a rhagolygu costau'r dyfodol dros gyfnod o bum mlynedd. Mae angen i hyn barhau a chyd-fynd ag amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllidebau ar sail flynyddol ac aml-flynyddol, a chael ei ffurfioli drwy gynllun busnes blynyddol a strategaeth gorfforaethol Trafnidiaeth Cymru, er mwyn cefnogi rheoli ariannol effeithiol yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

I ategu'r dangosyddion perfformiad allweddol presennol, mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad aml-ddull, sy'n monitro cynnydd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt, i roi mesur gwrthrychol o ba mor effeithlon ac effeithiol mae'n cyflawni ei chynllun busnes, ei strategaeth gorfforaethol pum mlynedd a'i hamcanion ehangach. Mae dull effeithiol o gyflwyno'r rhain drwy dangosfyrddau'n cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei fonitro yn y Bwrdd Perfformiad a sefydlwyd yn ddiweddar. Bydd y Bwrdd yn cwrdd bob chwarter a bydd yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun busnes blynyddol Trafnidiaeth Cymru a'i strategaeth gorfforaethol pum mlynedd (fel y cytunwyd arno yn y Cylch Gorchwyl).

Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau ehangach i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith, lleihau anghydraddoldebau a chefnogi cymunedau gwledig, bydd angen gweithio gyda phartneriaid eraill, yn benodol Awdurdodau Lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol a gafodd eu sefydlu'n ddiweddar. Rwy'n deall bod cynnwys arsylwr o Lywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi bod yn ddefnyddiol, a hoffem ichi wneud rhywbeth tebyg i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael eu cynrychioli, i sicrhau eu bod yn cefnogi'r diwygiadau sylweddol i wasanaethau a'r ffordd mae seilwaith yn cael ei ddarparu, a hefyd i fanteisio ar eu gwybodaeth am drafnidiaeth leol.

Amcanion Trafnidiaeth Cymru:

1. Sefydlu diwylliant teithio aml-ddull ar draws y sefydliad, gydag un rhwydwaith, un amserlen ac un tocyn wrth ei wraidd.
2. Mabwysiadu'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy sydd yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i arwain penderfyniadau.

3. Archwilio pob cyfle i (a) cynyddu trafnidiaeth gynaliadwy a (b) lleihau costau i Lywodraeth Cymru.

4. Cefnogi rhaglen o secondiadau gyda Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o leihau costau cyffredinol a nifer y staff.

5. Ystyried sut y gellid datblygu ffyrdd eraill o hyrwyddo diwylliant o weithredu ar y cyd, fel rhaglenni ar y cyd a rhannu cyfleoedd hyfforddiant.

6. Parhau i sicrhau bod cynlluniau busnes blynyddol a'r broses ar gyfer rhagolygu costau'n cyd-fynd ag amserlenni Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu cyllidebau, ar sail flynyddol ac aml-flwyddyn, a ffurfioli'r rhain drwy gynllun busnes blynyddol Trafnidiaeth Cymru yn unol a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

7. Datblygu ymhellach gyfres o ddangosyddion perfformiad teithio aml-ddull a'r ffordd maent yn cael eu cyflwyno a'u rhannu i wahanol gynulleidfaoedd, a chefnogi cyfarfod chwarterol i adolygu ar y cyd ddangosyddion perfformiad allweddol a cherrig milltir y cynllun busnes.

8. Cytuno ar fodel addas i sicrhau bod llywodraeth leol yn cael ei chynrychioli yng nghyfarfodydd Bwrdd Trafnidiaeth Cymru.

9. Ystyried cynnig gwasanaethau ehangach ar gyfer Awdurdodau Lleol / Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac ehangu'r rhaglen ar gyfer ymgysylltu â nhw.

**2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Rhaid i Drafnidiaeth Cymru ystyried sut y gall wella'r cymorth mae'n ei gynnig i nodi a rhoi cyfleoedd penodol i helpu pobl mewn grwpiau sydd dan anfantais, sydd angen cymorth ychwanegol i elwa ar ein rhwydweithiau trafnidiaeth. Mae cydraddoldeb ar ein rhwydweithiau a gwasanaethau trafnidiaeth yn feysydd ffocws allweddol ar gyfer ein hamcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Amcanion Trafnidiaeth Cymru:

10. Dechrau gwaith ar ailwampio eich Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol 2020–24 i sicrhau ei fod yn ystyried Cynllun Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhywiol, Anabledd ac LHDTC+, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a cynhwysiant – rhai presennol a rhai sydd yn yr arfaeth,.

11. Defnyddio Model Cymdeithasol Anabledd a gwybodaeth am ddiogelwch gwirioneddol a chanfyddedig ar drafnidiaeth gyhoeddus, i greu system trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch, aml-ddull yng Nghymru.

12. Cynyddu cyfranogiad pobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a siaradwyr Cymraeg i ddileu rhwystrau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

13. Nodi a chreu cyfleoedd penodol sy'n galluogi pobl mewn grwpiau sy'n agored i niwed neu dan anfantais i elwa ar ein rhwydweithiau trafnidiaeth.

14. Sicrhau bod y sefydliad yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn wlad sy'n gyfeillgar wrth bobl hŷn.

15. Darparu amrediad o opsiynau i gefnogi pobl ifanc Cymru i gael gwaith, gan gynnwys prentisiaethau, hyfforddiant, profiad gwaith a rhaglenni mentora, sy'n cyd-fynd â'r Warant i Bobl Ifanc.

16. Ystyried y cyfleoedd rydych yn eu cynnig ar hyn o bryd i blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal, a sut y gellid gwella'r rhain.

17. Adolygu eich cymorth presennol ar  gyfer pobl anabl, gan gynnwys y rhai nad yw eu hamhariadau neu eu cyflyrau'n amlwg, a gweithio tuag at wella'r gwasanaethau hyn.

18. Defnyddio'r rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio.

19. Llunio a chytuno ar y fersiwn derfynol o Gynllun pum mlynedd y Gymraeg gyda Chomisiynydd y Gymraeg, i gefnogi'r gwaith o gyflawni targed Llywodraeth Cymru yn y strategaeth Cymraeg 2050, sef cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, drwy sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd drwy greu cyfleodd i bobl defnyddio'r Gymraeg ar ei wasanaethau, a chefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Yn fwy uniongyrchol, rwy'n disgwyl ichi:

20. Gweithio gyda Grŵp Atebolrwydd Allanol Cynllun Cymru Wrth-hiliol i ddatblygu Cynllun Gwrth-hiliol a darparu gwasanaethau trafnidiaeth sy'n cyd-fynd ag amcan Llywodraeth Cymru i weld Cymru wrth-hiliol erbyn 2030.

21. Sicrhau eich bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, yn enwedig mewn perthynas â chyhoeddiadau ac arwyddion.

Rwy'n disgwyl i Drafnidiaeth Cymru fod yn gyflogwr enghreifftiol a chyflawni eich ymrwymiad i 'adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu'. Bydd hyn yn golygu archwilio ein sefyllfa bresennol, i ddatblygu ein dealltwriaeth o wrth-hiliaeth yng nghyd-destun trafnidiaeth a dangos sut rydych yn ymgorffori nodau gwrth-hiliaeth yn eich gwaith er mwyn datblygu nodau a chamau gweithredu a fydd yn sicrhau newid amlwg.

## 3. Bysiau

Bysiau yw'r dull trafnidiaeth gyhoeddus mwyaf hyblyg, ac asgwrn cefn unrhyw rwydwaith integredig. Trawsnewid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau bysiau fydd prif ffocws nesaf ein hagendâu ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrch ar draws ein dwy sefydliad. Bydd masnachfreinio'n galluogi, am y tro cyntaf, gynlluniau rhwydwaith aml-ddull ac yn cynnig gwasanaethau integredig ar gyfer cwsmeriaid.  Yn ystod y tymor Senedd hwn, nid yn unig rydym yn deddfu i newid y ffordd mae gwasanaethau bysiau'n cael eu rheoleiddio drwy fodel masnachfreinio, ond rydym hefyd yn ystyried pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau bysiau, gan gynnwys seilwaith, ailddyrannu lle ar y ffyrdd, hygyrchedd ac integreiddio.

Bydd gan Drafnidiaeth Cymru rôl wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r model newydd ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a gweithredwyr i roi rhaglen uchelgeisiol, realistig a fforddiadwy

ar waith i ddiwygio bysiau er mwyn galluogi'r newid hwn, dylai Trafnidiaeth Cymru sicrhau bod ganddi'r adnoddau, y sgiliau a'r gallu cywir i roi'r Bil Bysiau sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru ar waith.

Dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried y gwersi mae wedi'u dysgu drwy fasnachfreinio'r rheilffyrdd, a'i phrofiad ehangach o ranbarthau a dinasoedd o amgylch y DU a'r tu hwnt, i nodi cyfleoedd i wella'r ffordd mae gwasanaethau bysiau'n cael eu darparu, i wella integreiddio rhwng dulliau ac i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael ar draws pob dull i reoli rhwydwaith a gwasanaethau bysiau sy'n effeithiol ac yn cynnig gwerth da am arian. Mae sicrhau bod y rhwydwaith yn ariannol gynaliadwy yn her i bawb, ac mae angen inni ddatblygu ein dull masnachol ymhellach i gadw costau mor isel â phosibl ac i gynyddu refeniw cymaint â phosibl.

Rwyf wedi cynnwys cylch gwaith penodol ar gyfer bysiau yn Atodiad 1 i sicrhau ein bod yn rhannu set glir o ddisgwyliadau a dealltwriaeth gyffredin o rolau a chyfrifoldebau.

**4. Teithio Llesol**

Mae rôl Trafnidiaeth Cymru yn allweddol wrth wella'r seilwaith teithio llesol ledled Cymru, o ran maint ac ansawdd. Dylech hefyd annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio llesol drwy sicrhau bod cyfnewidfeydd, gorsafoedd a chanolfannau trafnidiaeth yn integreiddio â rhwydweithiau a chyrchfannau teithio llesol. Drwy ddatblygu a rhoi ar waith eich Strategaeth Newid Ymddygiad, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid mewn meysydd allweddol fel rheoli'r galw.

Amcanion Trafnidiaeth Cymru:

22. Mynd ati mewn modd strategol i orchwylio a herio'r ffordd mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Deithio Llesol yn cael ei roi ar waith, a sicrhau ei fod yn cael ei integreiddio â chynlluniau eraill.

23. Cyflwyno'r Ganolfan Teithio Llesol i wella capasiti a'r sylfaen sgiliau o fewn Trafnidiaeth Cymru i gynnwys arbenigwyr ym maes cynllunio teithio llesol a sgiliau rheoli rhaglenni.

24. Gweithio gyda thimau polisi Llywodraeth Cymru i ddatblygu metrigau i fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r Gronfa Teithio Llesol, er mwyn llywio blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

25. Dangos ac annog y newid ymddygiad a fydd ei angen i gynyddu faint mae pobl yn defnyddio dulliau teithiau cynaliadwy.

**5. Rheilffyrdd**

Dylai Trafnidiaeth Cymru barhau i gefnogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu trefniadau partneriaeth effeithiol gyda sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am weithredu gwasanaethau a seilwaith trenau yng Nghymru. Bydd gweithredu gwasanaethau trenau effeithlon, dibynadwy a hygyrch, ochr yn ochr â thrawsnewid a rheoli Rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, yn barhau i fod y rhaglen fwyaf a mwyaf cymhleth ar gyfer Trafnidiaeth Cymru.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer newid dull yn golygu uchelgais hirdymor i gynyddu gwasanaethau. Fodd bynnag, yn y tymor byr, nid yw'r rhan fwyaf o'r gwelliannau i amserlenni a oedd wedi'u cynllunio'n bosibl, oherwydd oedi wrth gaffael cerbydau newydd a / neu oedi wrth wella seilwaith. Mae'r heriau gweithredol hyn yn cynnig y cyfle i adolygu amserlenni i wella gwasanaethau cymaint â phosibl ac, am y tro cyntaf, ystyried amserlenni'n drwyadl yng ngoleuni'r newidiadau i batrymau teithio yn dilyn COVID. Dylai hyn ganolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar arian o docynnau, masnacheiddio asedau, a manteisio i'r eithaf ar system drafnidiaeth fodern i ailystyried ac ailbennu tybiaethau mewn perthynas â refeniw drwy fabwysiadu dull system gyfan ar gyfer darparu trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r cymhorthdal net ar gyfer gweithredu'r rhwydwaith trenau'n creu pwysau sylweddol ar gyllidebau yn y tymor canolog. Dylai Trafnidiaeth Cymru nodi a rhoi ar waith gynigion masnachol sydd â'r nod o leihau'r cymhorthdal gweithredol hwn, mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaeth i sicrhau newid dulliau teithio, Erthyglau Cymdeithasu Trafnidiaeth Cymru, ei dogfen fframwaith, ei chynllun busnes, ei chynllun corfforaethol pum mlynedd, a llythyr cyllido Llywodraeth Cymru, a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) ystyried mentrau prisiau tocynnau, incwm o feysydd parcio, gweithredu i ddiogelu refeniw, sianelau gwerthu a chyfleoedd gwell ar gyfer teithio.

Dylai Trafnidiaeth Cymru fod â strategaeth ar gyfer lleihau'r cymhorthdal, a sicrhau bod unrhyw effeithiau ar ddefnyddwyr y rheilffyrdd yn cael eu asesu cyn gweithredu'r newidiadau. Dylid rhoi'r wybodaeth diweddaraf i Lywodraeth Cymru am y newidiadau sy'n cael eu datblygu. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i Drafnidiaeth Cymru fod yn rhagweithiol wrth wneud mân benderfyniadau gweithredol yn unol â'i Herthyglau Cymdeithasu, ei dogfen fframwaith, ei chynllun busnes, ei chynllun corfforaethol pum blynedd, llythyr cyllido Llywodraeth Cymru a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru (oni bai bod angen ychwanegu at y gyllideb neu byddai'r penderfyniad yn cael effaith sylweddol ar gwsmeriaid). Bydd y cyflawni yn erbyn y cylch gwaith yn cael ei fonitro drwy'r prosesau llywodraethu ac ymgysylltu presennol, gan gynnwys y Bwrdd Llywio a'r Bwrdd Perfformiad, yn ogystal â'r cyfarfodydd chwarterol rhwng y Cadeirydd a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

Amcanion Trafnidiaeth Cymru:

26. Nodi'r gofynion cyllid ar gyfer yr hirdymor mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, a chadw rhagolygon ariannol cyfredol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

27. Cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi negodi â Llywodraeth y DU ynghylch Gweithrediadau, a chyllid Cynnal a Chadw ac Adnewyddu ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd.

28. Nodi a rhoi ar waith cynigion i leihau maint y cymhorthdal gweithredol.

29. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu piblinell bosibl o fuddsoddiadau yng Nghymru (sy'n cyd-fynd ag esemptiad Teckal) ar gyfer Bwrdd Rheilffyrdd Cymru sy'n rhoi set glir o flaenoriaethau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn ein rheilffyrdd.

30. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried opsiynau ar gyfer modelau gweithredu gwasanaethau trenau yn y dyfodol o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol a fframwaith deddfwriaethol posibl yn y dyfodol.

## 6. Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Mae rôl Trafnidiaeth Cymru fel partner Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno teithio aml-ddull wedi'i sefydlu yn dda ac yn cael ei deall yn dda. Mae'r cymorth y mae Trafnidiaeth Cymru yn ei gynnig o ran rheoli ac uwchraddio'r rhwydwaith ffyrdd strategol wedi bod yn amhrisiadwy. Dylai Trafnidiaeth Cymru barhau i weithio gyda fy swyddogion i ystyried cyfleoedd yn y dyfodol drwy ragor o integreiddio – er enghraifft, integreiddio agosach rhwng timau rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru a Thîm Rhwydwaith Strategol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod eu hastudiaethau o deithio aml-ddull yn ystyried y rhwydwaith ffyrdd yn llawn.

O ystyried cyfrifoldebau newydd Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â masnachfreinio a'r disgwyliadau o ran teithio aml-ddull a amlinellir yn y llythyr hwn, bydd yn bwysig ystyried opsiynau ar gyfer rôl Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol wrth gefnogi'r gwaith o weithredu a datblygu'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, yn benodol ei rôl wrth gynnig gwybodaeth dda, gydgysylltiedig am drafnidiaeth drwy un ffynhonnell sy'n gallu annog pobl i wneud dewisiadau mwy cynaliadwy, yn ogystal â chynnig cyngor ar ailddyrannu lle ar y ffyrdd.

Amcanion Trafnidiaeth Cymru:

31. Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, cefnogi'r gwaith o integreiddio rhwydweithiau lleol a rhwydweithiau strategol, a'u hystyried, ochr yn ochr ag asedau trafnidiaeth eraill, wrth ddatblygu cynlluniau a rhaglenni trafnidiaeth gynaliadwy.

32. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu atebion aml-ddull ar gyfer y cynlluniau a gafodd eu hargymell gan yr Adolygiad Ffyrdd, gan gynnwys cyngor ar ailddyrannu lle ar y ffyrdd a darparu gwybodaeth am drafnidiaeth sy'n annog pobl i wneud dewisiadau cynaliadwy.

## 7. Arloesi

Er mwyn cyflawni ein targedau ar gyfer newid hinsawdd, bydd angen inni sicrhau bod gwneud y peth cywir yn haws. Rwy'n disgwyl i Drafnidiaeth Cymru arwain y ffordd ar atebion arloesol sy'n cynnwys dulliau gwahanol, i sicrhau bod trafnidiaeth gynaliadwy yn fforddiadwy, yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio ar gyfer pobl Cymru. Er mwyn trawsnewid y ffordd mae pobl yn teithio yng Nghymru bydd angen mynd y tu hwnt i'r dulliau traddodiadol, ac ystyried cynnwys datrysiadau gweithredol newydd ar gyfer Cymru – fel trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw, integreiddio'r gwahanol ddulliau'n well ac edrych y tu hwnt i ymyriadau trafnidiaeth uniongyrchol a chynnwys cynllunio defnydd tir a newid ymddygiad.

Mae'r rhaglen drafnidiaeth ranbarthol, sy'n adeiladu ar raglen y Metro (wedi'i hamlinellu yn Atodiad 2) yn canolbwyntio ar weithio rhanbarthol, ac mae'n cynnwys cydweithio ag

amrediad o randdeiliaid, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Llywodraeth y DU, gweithredwyr cludiant a'r trydydd sector.

Er nad yw gweithrediadau cludo llwythi o fewn cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru, mae'n gynyddol bwysig bod cludo llwythi, logisteg a micro-logisteg (gan gynnwys cargo a beiciau e-gargo) yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r rhwydwaith trafnidiaeth, o ran bwriad strategol ac ymarferoldeb gweithredu'r rhain ochr yn ochr â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Amcanion Trafnidiaeth Cymru:

33. Gweithio gyda ni i gefnogi'r broses o ddiwygio'r gyfundrefn dacsis, gan gynnwys camau i ddatgarboneiddio'r fflyd.

34. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth cludo llwythi a logisteg.

35. Ymgorffori ymhellach fodelu aml-ddull a rhagolygu wrth wneud penderfyniadau mewn modd sy'n gyson â chyd-testun yr economi a thrafnidiaeth yng Nghymru.

36. Arwain y ffordd wrth ddatblygu a rhoi ar waith gwasanaethau, cynhyrchion a thechnolegau arloesol i ategu newid dulliau teithio.

Dylai'r llythyr hwn gael ei ystyried ar y cyd â'r Ddogfen Fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, ac Erthyglau Cymdeithasu Trafnidiaeth Cymru. Dylai Trafnidiaeth Cymru hefyd gydymffurfio â'r safonau, y canllawiau a'r egwyddorion llywodraethu sy'n berthnasol i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru y mae Llywodraeth Cymru yn hysbysu Trafnidiaeth Cymru amdanynt – gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Egwyddorion Nolan a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gallaf gadarnhau mai Gareth Evans sy'n arwain eich Tîm Partneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru.

Bydd y berthynas gadarnhaol, adeiladol sy'n seiliedig ar herio sydd wedi cael ei datblygu rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, ac rwy'n croesawu eich cefnogaeth yn hyn o beth. Wrth inni edrych tua'r dyfodol, hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch ichi, y Bwrdd a'r holl dîm yn Nhrafnidiaeth Cymru am yr ymroddiad rydych wedi'i ddangos yn ystod y flwyddyn diwethaf wrth ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth rhagorol, gan sicrhau gwerth am arian a chadw costau mor isel ag y bo modd.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

**Atodiad 1 – Y Cylch Gwaith Bysiau**

Ar hyn o bryd mae rolau a chyfrifoldebau ar draws y system fysiau'n ddarniog, heb unrhyw oruchwyliaeth gyffredinol. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg cysondeb a safoni. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Bil Bysiau, yn cynnig mai hi a ddylai fod â'r cyfrifoldeb statudol am wasanaethau bysiau yng Nghymru. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn ein Papur Gwyn: Mae Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn, teithwyr, gweithredwyr bysiau a'u staff i gyd yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol sy'n diwallu anghenion pobl, a bydd angen inni ddod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd er mwyn goruchwylio'r system gyfan. Bydd Awdurdodau Lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am feysydd allweddol, gan gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth leol, seilwaith lleol a chludiant ysgol, ond bydd Trafnidiaeth Cymru, gyda chytundeb Gweinidogion, yn dod â'r partneriaid hyn ynghyd ac yn darparu cyngor technegol i'w galluogi i bennu cydgyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Yn ddarostyngedig i fersiwn derfynol y Bil y cytunir arni gyda'r Senedd, bydd Trafnidiaeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r system yn ei chyfanrwydd.
- Gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr lleol a rhanbarthol i ddatblygu rhwydweithiau a blaenoriaethau ar gyfer bysiau, a'u rheoli mewn modd dynamig, gan gydnabod arwyddocâd arbenigedd lleol, gwybodaeth a chysylltiadau a rôl barhaus Awdurdodau Lleol yn y system drafnidiaeth.
- bod yn atebol am wasanaethau a'r ffordd y byddant yn cael eu gweithredu – gan gynnwys llwybrau, safonau cerbydau, amserlenni, prisiau tocynnau, brandio, gwybodaeth i deithwyr a thocynnau.
- darparu cyfeiriad a chysondeb ledled Cymru.
- caffael a rheoli gwasanaethau bysiau.
- dosbarthu cyllid i weithredwyr a rheoli risgiau ar ran Llywodraeth Cymru, o fewn paramedrau ariannol y cytunwyd arnynt.

Er mwyn hwyluso hyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol ddatblygu mecanweithiau priodol i sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn atebol am gyflawni ei rôl wrth gyflawni'r rhaglen masnachfreinio bysiau ar ran ein hawdurdodau cyhoeddus sy'n atebol i'r etholwyr.

**Atodiad 2 – Y Cylch Gwaith ar gyfer Gweithio Rhanbarthol**

Bydd esblygiad Rhaglen y Metro yn arwain at greu Timau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd gyda ffocws cliriach ar gyfer y Canolbarth, i sicrhau bod yr holl wlad wedi'i chynnwys ac i gyd-fynd â gweithgareddau eraill yn y rhanbarth hwn. Dylent ddatblygu atebion rhanbarthol pwysig a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig rhai o'r cyfleoedd gorau i gyflawni ein targedau ar gyfer newid dulliau teithio, a lleihau tagfeydd ar y ffyrdd, allyriadau carbon a llygredd aer, gan arwain atebion drwy broses Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) hyd at y penderfyniad terfynol ynghylch buddsoddi, cyn eu trosglwyddo i'r timau cyflawni.

Dylent ystyried problemau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth sydd wedi cael eu nodi gan randdeiliaid, er enghraifft drwy Adroddiad Cam 0 WelTAG, a rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, gan ystyried y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael.

Dylai'r Timau Trafnidiaeth Rhanbarthol helpu i resymoli nifer a maint yr astudiaethau WelTAG rydym yn eu hariannu. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar adnoddau ariannol a staff, yn sicrhau bod astudiaethau'n gweithio o fewn o cwmpas cywir o ran daearyddiaeth a dulliau teithio, a sicrhau bod ein hymdrechion yn canolbwyntio'n well ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Dylai Timau Trafnidiaeth Rhanbarthol nodi a rheoli rhyngddibyniaethau rhwng prosiectau i sicrhau bod y gweithredu cyffredinol o fewn y rhanbarth yn sicrhau cymaint o fanteision ag y bo modd. Bydd y Timau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ysgogi cydweithio rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod anghenion lleol a rhanbarthol hefyd yn cael eu diwallu drwy eu gweithgareddau datblygu. Disgwylir i'r Timau Trafnidiaeth Rhanbarthol weithio mewn modd cadarn i gefnogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chyflawni eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, er enghraifft drwy gydgysylltu cyngor rhanbarthol i'r cyd-bwyllgorau corfforedig gan Uned Dadansoddi Trafnidiaeth Cymru.

Bydd y Timau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gweithio gyda'u cymheiriaid rhanbarthol i gynllunio defnydd tir a datblygu economaidd.  Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o lunio Cynlluniau Datblygu Strategol a chyflawni amcanion trafnidiaeth yn y tymor hwy drwy leoli a chynllunio tai, swyddi a gwasanaethau.

Dylai’r Timau Rhanbarthol roi sylw penodol i deilwra ar gyfer anghenion penodol y cymunedau maent yn gyfrifol amdanynt, fel optimeiddio ar gyfer anghenion gwledig.

Dylai Trafnidiaeth Cymru hefyd barhau i ariannu Cyllid Uned Cyflawni Burns yn Ne-ddwyrain Cymru i weithredu argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, nes bod eu Cadeiryddion a Gweinidogion Cymru yn cytuno bod y gwaith wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol, a datblygu a gweithredu cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae eu rôl wrth gynllunio, monitro neu arwain y gwaith o gyflawni 58 argymhelliad Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn allweddol i gynnig opsiynau cystadleuol eraill yn hytrach na defnyddio ceir preifat ar yr M4.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gefnogi a chyflawni gwaith sy'n codi o argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yr hydref hwn. Dylai'r Timau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru baratoi ar gyfer ymateb i'r argymhellion hyn.

**Atodiad 3 – Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan**

Dylai Trafnidiaeth Cymru barhau i ddarparu adnoddau i reoli'r gwaith o gyflwyno rhaglen Gwefru Cerbydau Trydan, gyda'r nod o ehangu'r rhwydwaith cymaint ag y bo modd wrth geisio cynyddu buddsoddi preifat cymaint â phosibl drwy weithio gyda gweithredwyr a phartneriaid. Rôl Trafnidiaeth Cymru yw helpu gyda'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, a gyhoeddwyd yn 2021. Mae gwneud hyn yn golygu gweithio'n agos gyda phartneriaid cyflawni mannau gwefru yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae'r prif amcanion yn cynnwys:

- Rheoli a monitro cyllid grant Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru, gan sicrhau dulliau teg a chyfiawn o flaenoriaethu cyllid grant ar gyfer y sector cyhoeddus i gyflawni nodau'r strategaeth.

- Adolygu'r camau gweithredu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a helpu i'w rhoi ar waith.

- Cefnogi Safonau Gwefru Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a mabwysiadu safonau cenedlaethol eraill ar gyfer gwefru cerbydau trydan mewn perthynas â chydraddoldeb, gan gynnwys PAS 1899.

- Datblygu Canolfan Gymorth ar gyfer Gwasanaethau Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer cleientiaid chyhoeddus a chleientiaid preifat, gan ddarparu amrediad o gymorth i berchnogion, datblygwyr a defnyddwyr mannau gwefru cerbydau trydan.

- Darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn gorsafoedd ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd ac mewn meysydd parcio ychwanegol yng Nghymru ac ar y ffin.

- Sefydlu Rhaglen Rheoli Rhaglenni i reoli trefniadau cyflawni, pennu safonau a monitro'r cynnydd.

- Gweithio gyda Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu i sicrhau bod capasiti'r grid nawr ac yn dyfodol yn ddigonol ar gyfer y rhwydwaith a ffefrir. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn creu ac yn rheoli gweithgor Gorchwyl a Gorffen sector cyhoeddus/preifat ar gyfer Cysylltiadau.

- Gweithio gyda'r sector preifat i sicrhau bod y gwaith o gyflwyno'r rhwydwaith a ffefrir mor effeithlon ag y bo modd, a meithrin cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn creu ac yn rheoli gweithgor Gorchwyl a Gorffen sector preifat/cyhoeddus ar gyfer Gweithredwyr Mannau Gwefru, i fynd i'r afael â rhwystrau i ddatblygu masnachol. Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn darparu cymorth, offerynnau a chanllawiau i alluogi awdurdodau lleol a'r sector preifat i gyflwyno'r rhwydwaith a ffefrir.

- Nodi a datblygu atebion arloesol sy'n gwella ansawdd profiad cwsmeriaid ac yn dileu rhwystrau i gyflwyno seilwaith gwefru. Mae hyn yn cynnwys modelau busnes, trefniadau masnachol a thechnolegau.